Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Foel Gron
# Mynytho
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 7RN

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2012**

## Cyd-destun

Ysgol dan Reolaeth Wirfolodd yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Foel Gron sydd wedi ei lleoli ym mhentref Mynytho. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd.

Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal a wasanaethir ganddi fel un sydd yn gymysg o ran cefndir cymdeithasol a heb fod yn ffyniannus nac yn dioddef anfanteision economaidd.

Mae 30 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys pump o blant meithrin yn rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Daw 56% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Daw 6% o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Tua 13% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae gan 28% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ac nid oes yr un disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Foel Gron yn 2011-2012 yw £4,954. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7,732 a'r lleiafswm yw £2,674. Mae Ysgol Foel Gron yn safle 17 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr haf 2006.

Penodwyd y pennaeth presennol yn barhaol ym Medi 2010 yn dilyn cyfnod mewn gofal am ddwy flynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn;
- bod disgyblion yn cyfranogi'n llawn yn y gwersi ac yn dangos cynnydd clir yn eu gallu i weithio yn annibynnol;
- llwyddiant yr ysgol yn datblygu dwyieithrwydd y disgyblion;
- bod yr addysgu yn gyson dda drwy'r ysgol; a
- bod yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar ble mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir;
- bod y staff yn gweithio yn effeithiol fel tîm;
- bod trefn hunanarfarnu'r ysgol wedi adnabod yn gywir agweddau penodol i'w datblygu; a
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a strategaethau addas ar gyfer eu gweithredu ac sydd ar waith yn barod.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 codi safonau ysgrifennu y disgyblion mwyaf galluog ar draws yr ysgol;

A2 cynllunio'n fwy penodol ar gyfer sicrhau dilyniant o fewn y medrau ar draws y cwricwlwm; a

A3 chynyddu cyfraniad y corff llywodraethol a'r staff yn y prosesau hunanarfarnu.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ac eithrio yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i bron hanner ohonynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu a chynnydd ardderchog yn y Gymraeg.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn uwch na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd ysgolion Cymru. Mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn anwastad dros gyfnod oherwydd natur fechan y garfan disgyblion ac effaith disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar y data.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn y Gymraeg yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru a chanran canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn Saesneg hefyd yn uwch na'r teulu ac yn debyg i gyfartaledd ysgolion Cymru. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn agos at y cyfartaledd mewn ysgolion tebyg ond yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru.

Yn gyffredinol nid yw'r ysgol yn cymharu cystal ag ysgolion tebyg o ran niferoedd sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig ym mhob maes yn 2011 ac eithrio mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gyson is na chyfartaledd ysgolion Cymru a chanran canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg dros gyfnod o amser.

Mae'r gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion a'r hyn a welwyd o fewn y dosbarthiadau yn ystod arsylwadau yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau yn gyffredinol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r athrawon yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy, gan ddefnyddio amrediad eang o eirfa. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron bob un o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n hyderus ac yn glir mewn gwahanol gyd-destunau. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymateb i gyfraniadau oedolion a disgyblion eraill yn synhwyrol. Maent yn siarad yn hyderus mewn amryw o gyd-destunau, ac yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio i bwrpas. Erbyn diwedd y Cyfnod

Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn uchel gyda rhugldר ac yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o destunau ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys. Maent yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhugldר ar draws y cwricwlwm a gallant ddewis a dethol rhannau penodol o lyfrau ac oddi ar y rhyngrwyd at eu defnydd o fewn eu gwaith.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda gyda mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau derbyniol o waith ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm. Mae datblygiad ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg yn dangos cynnydd amlwg dros gyfnod byr o amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu yn glir ac yn ddiddorol mewn ystod eang o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau. P'run bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu sy'n cyfateb i'w gallu.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a'r bechgyn

Mae'r disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, disgyblion anghenion dysgu ychwanegol neu ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn gwneud cynnydd priodol i'w hoed a'u gallu.

Er mai ail iaith yw'r Gymraeg i bron hanner y disgyblion, maent oll yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach ac yn hybu hyn trwy gynnal siop ffrwythau yn ddyddiol. Cyfranogant yn rheolaidd mewn gweithgareddau cadw'n heini ac ymarfer y corff megis y clwb 'Dal i Fynd' a gwelir datblygiad yn eu ffitrwydd a hunanhyder o ganlyniad.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn a dangosant barch a gofal at ei gilydd ac at oedolion yn hollol naturiol. Teimla'r disgyblion oll yn ddiogel yn yr ysgol, a gwyddant at bwy i droi os oes ganddynt broblem. Maent yn ymwybodol iawn o faterion lles, iechyd a diogelwch.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n mwynhau eu profiadau yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda tuag at faterion megis cynaliadwyedd a gwaith dyngarol. Gallant gydweithio'n effeithiol fel grwpiau a pharau trafod. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cychwyn gwneud penderfyniadau am gynnwys themâu. Maent yn cyfrannu yn aml drwy fynegi barn ac ystyried sut i wella eu gwaith ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu penderfynu ar drywyddau gwaith eu hunain. Mae hyn yn meithrin y disgyblion yn effeithiol i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae presenoldeb o oddeutu 95% sy'n dda ac yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Gwna'r cyngor ysgol a'r grŵp gwyrdd gyfraniad arwyddocaol i weithgareddau'r ysgol. Trwy eu hymdrechion maent wedi dylanwadu ar weithgareddau megis y cynlluniau mentergarwch 'Blodau Foel Gron', cynllunio i baentio toiledau a phenderfyniadau ynglŷn â dewis dillad ysgol a phrynu offer newydd i'r iard. Maent yn falch o'u llwyddiant wrth godi arian at achosion da yng Nghymru a thramor.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau, yn y pentref a'r gymuned tu hwnt. Maent bron oll, ar draws yr ystod oedran, yn elwa o'r cyfleoedd hyn ac yn meithrin hyder yn eu sgil.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau ac amrediad da o weithgareddau. Cyfoethogir y dysgu'n effeithiol drwy ddefnyddio'r gymuned ehangach. Trwy gynllunio trylwyr ar y cyd, mae'r athrawon yn sicrhau cysondeb a dilyniant priodol yn y meysydd cwricwlaidd. Mae'r cynllunio'n ymateb i'r her o godi safonau gwaith ysgrifenedig y bechgyn ond cyfyng yw'r cyfleoedd i ymestyn a herio'r plant mwyaf galluog.

Mae cyfleoedd digonol i ddatblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm ond nid oes cynllunio digon bwriadus i sicrhau dilyniant cynyddol yn y medrau hyn. Mae gan yr ysgol strategaeth fanwl ar gyfer datblygu darllen a rhoddir sylw da i fedrau datrys problemau a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 ac yn gynyddol yn y Cyfnod Sylfaen.

Rhoddir sylw da iawn i'r dimensiwn Cymreig drwy astudio'r amgylchedd lleol, hanes, a llên gwerin yr ardal a gwahoddir beirdd ac artistiaid preswyl lleol a Chymreig yn achlysurol.

Mae'r ddarpariaeth gadarn ar gyfer agweddau ar yr ysgol iach a datblygiad cynaliadwyedd wedi ei hymgorffori'n llawn i fywyd yr ysgol a'r cwricwlwm a chynllunir yn fwriadus ar gyfer ehangu gwybodaeth y disgyblion am wledydd a materion tramor.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol gyda rhai elfennau rhagorol. Gwelir elfennau rhagorol yn y modd y mae'r athrawon yn cynnig cwestiynau agored er mwyn herio'r disgyblion yn gyson. Mae brwdfrydedd a medrau rhyngbersonol effeithiol yr athrawon yn ysgogi'r disgyblion ac ennyn diddordeb a sylw.

Ymysg yr elfennau da o'r addysgu, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol, ond nid yw'r tasgau ar gyfer datblygu ysgrifennu disgyblion bob amser yn ddigon heriol ar gyfer y plant galluog.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ganmoliaeth ac maent yn cymell y disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl yn gyson. Mae'r oedolion yn rhoi cefnogaeth dda i'r

disgyblion tra ar waith. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n fwriadus ac mae adnoddau priodol wedi'u darparu. Mae'r oedolion o fewn y dosbarthiadau yn gosod patrwm ieithyddol graenus sy'n dylanwadu ar loywi iaith lafar y disgyblion.

Mae asesu ar gyfer dysgu'n cael sylw da drwy'r ysgol. Mae gan y disgyblion rôl amlwg yn y dysgu ac maent yn cyfrannu'n gyson i'r gwersi. Rhoddir rhan weithredol i ddisgyblion wrth bennu eu meini prawf llwyddiant ac wrth asesu eu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cyfoedion. Gwneir hyn yn effeithiol iawn wrth i'r disgyblion fesur eu dysgu yn drwyadl yn erbyn amcanion penodol.

Mae'r marcio'n adeiladol ac yn ymateb i waith ysgrifenedig drwy gynnig syniadau ar sut i symud y dysgu yn ei flaen. Mae'r athrawon yn adolygu cynnydd a dealltwriaeth flaenorol y disgyblion ar ddechrau'r gwersi er mwyn adeiladu ar hyn, gan sicrhau bod disgyblion yn cael amser i feddwl sut ddaethant o hyd i'w hatebion.

Mae gan yr ysgol system asesu briodol sy'n weithredol drwy'r ysgol ac sy'n bwydo dadansoddiad canlyniadau profion a'r system dracio effeithiol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus lle mae'r staff yn ymdrechu'n llwyddiannus i hyrwyddo twf ysbrydol a moesol y disgyblion. Mae'r berthynas glos rhwng yr ysgol a'r eglwys trwy'r gwasanaethau o fewn yr ysgol ac o fewn yr eglwys yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn meithrin cyswllt agos gyda phob teulu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch y disgyblion yn effeithiol, ac yn datblygu medrau myfyrio, holi a mynegi barn yn briodol drwy amseroedd cylch addas.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda darparwyr ac asiantaethau amrywiol er lles y plant. Darperir gwybodaeth dda i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol ac am drefniadau penodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau da i gofnodi anghenion, cynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar a threfnir ymyrraeth briodol ar eu cyfer. Mae gweithdrefnau'r ysgol i adrodd ar ddatblygiad anghenion ychwanegol yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn. Yn ogystal, rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion fynegi barn ar eu cynlluniau addysgol unigol.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cartrefol, croesawgar o fewn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda. Rhoddir pwyslais arbennig ar sicrhau cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol ym mhob gweithgaredd ar draws yr ysgol drwy gwricwlwm eang.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn naturiol drwy waith amrywiol yn ymwneud â ddinasyddiaeth fyd eang.

Mae cyflwr yr adeilad yn gyffredinol dda ac mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'r adeilad ynghyd â thir gwyrdd y Cyngor Cymunedol a leolir gyferbyn â'r ysgol. Mae digon o ddeunyddiau dysgu o ansawdd da ac mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol a symbylus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir. Mae wedi llwyddo i rannu ei gweledigaeth yn effeithiol gyda'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae strategaethau penodol wedi eu llunio ar gyfer datblygu'r addysgu a chodi safonau.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu hadolygu yn rheolaidd ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r polisïau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol ac ar gyflawniad y disgyblion. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu tîm effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rolau statudol yn effeithiol. Trwy dderbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am berfformiad cyfredol yr ysgol. Maent hefyd yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd ac yn dod i ddeall am weithrediad dydd i ddydd yr ysgol. Er bod y corff llywodraethol yn derbyn yr adroddiad hunanarfarnu i'w wirio a'i drafod ac yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, nid ydynt yn cymryd rôl ddigon blaenllaw ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol a gosod blaenoriaethau.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol cyfredol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu ynghyd â medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Mae'r ysgol hefyd wedi ymrwymo i safonau achrediadau'r Ysgol Iach ac Ysgol Werdd er mwyn hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion a'u parch tuag at yr amgylchfyd. Rhoddir sylw dyledus hefyd i lais y dysgwr ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefn gynhwysfawr yn ei lle ar gyfer hunanarfarnu sydd wedi hen sefydlu. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i adnabod yn glir gryfderau'r ysgol a'r agweddau i'w datblygu ymhellach. Mae'r trefniadau ar gyfer casglu'r wybodaeth yn drylwyr ac yn cynnwys ymweliadau â dosbarthiadau, gwirio gwaith a dehongli data. Er bod cyfleoedd penodol i'r staff a'r llywodraethwyr drafod yr hunanarfarniad nid ydynt yn chwarae rôl lawn yn y broses o greu'r adroddiad. Mae sylwadau rhieni a disgyblion yn cael eu cywain trwy'r holiaduron blynyddol priodol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol ac yn adnabod yn glir yr elfennau i'w datblygu yn ogystal â'r cryfderau sy'n bodoli. Mae'n cynnig tystiolaeth gynhwysfawr ar gyfer cyfeirio gwaith yr ysgol tuag at godi safonau.

Mae perthynas glir rhwng y cynllun datblygu cyfredol a'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf. Mae blaenoriaethau'r cynllun wedi eu seilio yn gadarn ar arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg drwy'r broses hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu costio'n briodol, y person â chyfrifoldeb wedi ei enwi, ac mae'r amserlen weithredu ynghyd â'r meini prawf llwyddiant wedi'u nodi'n briodol.

Sicrha cymuned ddysgu broffesiynol fewnol yr ysgol fod y staff yn datblygu a rhannu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn datblygu'n dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir partneriaeth gref gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol, fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, busnesau lleol a sefydliadau cymunedol, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol effeithiol gydag ysgolion cynradd y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadaeth effeithiol yn ei lle i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd. Yn ogystal, trefnir hyfforddiant ar y cyd ag ysgolion cyfagos i gyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol sy'n elfen dda iawn o gynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd.

Mae trefniadau trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn effeithiol ac yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Gweithiant yn gydwybodol fel tîm i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau symbylus ar gyfer y disgyblion.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion datblygu'r staff yn effeithiol ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar effeithiolrwydd trefn yr ysgol o gynllunio ac asesu.

Darperir cyfleoedd eang ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff cyfan. Mae cysylltiad agos rhwng yr hyfforddiant a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Rhoddir cefnogaeth ddilys i'r athrawes sydd newydd gymhwyso.

Mae'r corff llywodraethol yn gosod cyllideb yn ofalus, yn monitro'r gwariant yn rheolaidd ac mae'r adnoddau ariannol yn cael eu dyrannu'n benodol i ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

### Data perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 1, mae pob un o'r disgyblion saith oed wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn 2011. Mae hyn wedi rhoi'r ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl. P'run bynnag mae canlyniadau ysgrifennu yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r ysgol wedi llwyddo i gyrraedd canran uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg a chenedlaethol mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf ym mhob pwnc.

Nid yw'r ysgol yn cymharu cystal ag ysgolion tebyg o ran niferoedd sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig ym mhob maes dros bum mlynedd ac eithrio mewn gwyddoniaeth yn 2009/2010.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.

Mae canran y disgyblion 11 mlwydd oed sydd wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn 2011 mewn Cymraeg a chyfuniad o'r pynciau yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol a'r teulu o ysgolion. Mae'r canlyniadau hefyd yn uwch na'r teulu a thebyg i'r cenedlaethol mewn Saesneg. Mewn mathemateg mae'r canlyniadau yn uwch na'r teulu ond yn is na'r ffigur cenedlaethol ac mewn gwyddoniaeth yn agos at gyfartaledd y teulu ac yn is na'r ffigur cenedlaethol.

Mae'r canlyniadau yn gyffredinol ar i fyny mewn Cymraeg a Saesneg dros gyfnod o bum mlynedd er yn anwastad oherwydd y niferoedd bychan o ddisgyblion o fewn y garfan. Yn y Gymraeg mae'r ysgol wedi bod o fewn y 25% neu 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl ac eithrio yn 2008/2009 pan oedd yn y 50% isaf. Tebyg fu canlyniadau mewn Saesneg, yn anwastad ond o fewn y 25% uchaf yn 2009/2010 a'r 50% isaf yn 2010/2011. Anwastad fu'r canlyniadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth gan amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pum mlynedd.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a'r bechgyn ac eithrio pan fo'r garfan disgyblion yn cynnwys bechgyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Bu cynnydd mewn cyflawniadau ar lefel 5 yn 2011 mewn mathemateg ac maent wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r teulu ers 2009. Anwastad fu'r canlyniadau o fewn y Gymraeg dros bum mlynedd, er roeddent yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r teulu hyd at 2010/2011. Mae'r tueddiadau yn y Saesneg wedi bod yn gyffredinol is na'r teulu a Chymru ac eithrio yn 2010/2011 pan oedd perfformiad ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl. Mae canlyniadau lefel 5 mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn raddol gynyddu.

Yn gyffredinol, mae niferoedd llai o ferched na bechgyn yn cyflawni ar y lefelau uwch mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer pob agwedd.

Daeth 11 o ymatebion i law. Mae pob rhiant yn datgan fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Dywedant fod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol. Maent hefyd o'r farn fod yr addysgu yn dda a bod y staff yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed ac i wneud eu gorau. Mae'r rhieni'n datgan fod yr ysgol yn annog y disgyblion i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd ac yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Dywedant hefyd fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau ac yn rhoi gwybodaeth gyson am gynnydd y disgyblion.

Mae bron pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac o'r farn fod y disgyblion yn ddiogel yno, fod ymddygiad yn dda a bod y staff yn trin y disgyblion yn deg ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau. Mae bron pob rhiant yn datgan fod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent hefyd yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn neu nodi problem.

Mae llawer o'r rhieni yn datgan fod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ac o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Cwblhaodd 14 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae pob un o'r dysgwyr yn datgan eu bod yn hapus, ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â hwy os byddant yn poeni neu yn gweld y gwaith yn anodd. Nododd pob un o'r disgyblion fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol, nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio a bod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio. Maent yn datgan fod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a bod yna lawer o gyfleoedd iddynt ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae bron bob un yn dweud fod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae llawer o'r disgyblion o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Angharad Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Manon Owen | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.